Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

**INF291W**
**Gwasanaethau Cerbydau**

# Rhifau cofrestru a phlatiau rhif ôl gerbyd



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

9/24

# Cynnwys


## Rhifau cofrestru ôl gerbyd

**01**
Cofrestru ôl gerbyd - gwybodaeth gefndirol .................... 3

**02**
Pam bod gennym rifau cofrestru ôl gerbyd ...................... 3

**03**
Fformat rhif cofrestru ôl gerbyd .................. 4

**04**
Arddangos rhifau cofrestru ôl gerbyd .... 4

## Platiau rhif ôl cerbyd

**05**
Sut i gael plât rhif ôl gerbyd ................ 4

**06**
Manyleb dyluniad plât ôl gerbyd ......... 5

**07**
Ble i arddangos y platiau cofrestru ôl-gerbyd ................ 6

**08**
Sticeri y DU ............ 7

**09**
Beth i'w wneud os yw plât cofrestru eich ôl gerbyd yn cael ei ddwyn ......... 7

**10**
Beth os nad ydych bellach yn defnyddio'r ôl gerbyd ar gyfer teithiau rhyngwladol ............ 7

**11**
Beth i'w wneud os ydych yn gwerthu, yn cael gwared ar neu'n trosglwyddo eich ôl gerbyd ............... 7

# Rhifau cofrestru ôl gerbyd

## 1 Cofrestru ôl gerbyd – gwybodaeth gefndirol

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i rai ôl gerbydau sy'n cael eu defnyddio yn rhyngwladol gael eu cofrestru gydag Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Mae hyn yn berthnasol i:

- bob ôl gerbyd defnydd masnachol sy'n pwyso dros 750cg mewn pwysau gros
- pob ôl gerbyd defnydd anfasnachol sy'n pwyso dros 3,500cg mewn pwysau gros

Dim ond os byddant yn teithio trwy wlad dramor sydd wedi ymuno â Chytundeb Confensiwn Fienna 1968 ar Draffig Ffyrdd yn unig y mae'n rhaid i'r ôl gerbydau hyn gael eu cofrestru. Hyd yma, nid yw Gweriniaeth Iwerddon, Malta, Sbaen na Cyprus wedi ymuno â'r confensiwn hwn.

Unwaith y bydd ôl gerbyd wed'i gofrestru gyda DVLA, caiff rhif cofrestru unigryw y mae'n rhaid ei arddangos ar yr ôl gerbyd.

Gellir dod o hyd i'r gwasanaeth cofrestru ôl gerbyd yn
**www.gov.uk/cofrestru-ol-gerbyd-i-gymryd-dramor**

## 2 Pam bod gennym rifau cofrestru ôl gerbyd

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i rai ôl gerbydau arddangos rhif cofrestru unigryw. Mae'r rhifau cofrestru hyn yn ffordd o adnabod ôl gerbydau wedi'u cofrestru yn y DU sy'n cael eu gyrru'n rhyngwladol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau hwylustod teithio dramor.

## 3 Fformat rhif cofrestru ôl gerbyd

Mae fformat rhif cofrestru'r ôl gerbyd yn un llythyren ac yna 7 rif, sydd wedi'u nodi ar 2 linell. Dyma enghraifft:




## 4 Arddangos rhifau cofrestru ôl gerbyd

**Rhaid arddangos rhifau cofrestru ôl gerbyd ar blatiau rif yn gywir fel y nodir yn Rheoliadau Cofrestru Ôl Gerbyd 2018. Mae'r rheoliadau hyn yn llywodraethu sut mae platiau rhif ôl gerbyd yn cael eu dylunio a'u harddangos.**

Mae'n drosedd i'r rhif cofrestru gael ei guddio mewn unrhyw ffordd sy'n ei gwneud yn anodd ei ddarllen. Er enghraifft, ni ddylech ddefnyddio bolltau gosod i newid y llythyren neu unrhyw un o'r rhifau. Gall unrhyw un sydd â phlât rhif nad yw'n arddangos y rhif cofrestru yn gywir gael dirwy o hyd at £1,000.

# Platiau rhif ôl gerbyd

## 5 Sut i gael plât rhif ar gyfer ôl gerbyd

Er mwyn cael plât rhif wedi'i wneud ar gyfer eich ôl gerbyd, rhaid i chi fynd i gyflenwr cofrestredig platiau rhif (RNPS) sy'n cyflenwi platiau rhif ar gyfer ôl gerbydau. Gallwch gael manylion am eich RNPS agosaf yn **www.gov.uk/number-plate-supplier**

Bydd hefyd angen i chi dangos tystysgrif awdurdodi plât rhif eich ôl gerbyd i'r RNPS.

Byddwn yn anfon yr awdurdodiad hwn atoch ar ôl i chi gwblhau eich cais cofrestru ar-lein, bydd hon yn ddilys am **5 diwrnod**. Pan fyddwch yn derbyn eich tystysgrif gofrestru ôl gerbyd y DU yn y post, gallwch ei ddefnyddio i gael eich platiau rhif.

Bydd angen i'r cyflenwr hefyd weld dogfennau gwreiddiol sy'n profi eich enw a'ch cyfeiriad. Gallwch ddefnyddio un o'r dogfennau adnabod canlynol:

- trwydded yrru
- bil cyfleustodau, Treth Cyngor neu ardrethi o'r 6 mis diwethaf
- cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu o'r 6 mis diwethaf
- cerdyn hunaniaeth genedlaethol

Bydd y canlynol yn cadarnhau eich enw yn unig:

- pasbort – nid oes rhaid ei gyhoeddi yn y DU
- cerdyn debyd neu gredyd banc neu gymdeithas adeiladu
- cerdyn gwarant yr heddlu
- cerdyn hunaniaeth y lluoedd arfog

## 6 Manyleb dyluniad plât ôl gerbyd

Mae plât cofrestru ôl gerbyd yr un siâp â'r plât cerbyd safonol ar gyfer beic modur a rhaid iddo gael cymeriadau du solet (y llythyren a'r rhifau) ar gefndir gwyn. Ni ddylai'r cymeriadau ac arwyneb y plât gynnwys unrhyw ddyluniadau, patrymau na gweadau. Hefyd:

- rhaid i gymeriadau fod yn 64mm tal
- rhaid i gymeriadau (ac eithrio'r rhif '1' neu'r llythyren 'I') fod yn 44mm o led
- rhaid i'r rhif '1' a'r llythyren 'I' fod yn 10mm o led
- rhaid i strôc y cymeriad (trwch y print du) fod yn 10mm o led
- rhaid i'r gofod rhwng y cymeriadau fod yn 10mm

- rhaid i'r gofod fertigol rhwng pob rhes o gymeriadau fod yn 5mm
- rhaid i led yr ymyl rhwng frig y plât ac unrhyw un o'r cymeriadau fod o leiaf 5mm
- rhaid i led yr ymyl rhwng gwaelod y plât ac unrhyw un o'r cymeriadau fod o leiaf 13mm

Rhaid i'r cymeriadau fod mewn ffont safonol (arddull y llythrennau), er enghraifft:

ABCDEFGHIJ
KLMNOPQRST
UVWXYZ
1234567890

Rhaid i'r plât rhif ddangos y rhif cofrestru a gwneuthurwr y plât neu fanylion y cyflenwr yn unig (er enghraifft, enw, nod masnach neu ffordd arall o adnabod gwneuthurwr neu gyflenwr y plât).

## 7 Ble i arddangos platiau cofrestru'r ôl gerbyd

Rhaid arddangos plât cofrestru'r ôl gerbyd ar gefn yr ôl gerbyd mewn safle gweladwy a fertigol. Mae'n rhaid ei arddangos yn ogystal â rhif cofrestru'r cerbyd sy'n ei dynnu ac mae'n rhaid ei osod mor bell ag y bo'n rhesymol bosibl o'r plât hwn.

Os nad oes modd arddangos plât ar gefn yr ôl gerbyd, rhaid gosod plât cofrestru'r ôl gerbyd ar ddwy ochr yr ôl gerbyd fel bod y ddau ohonynt i'w gweld yn glir.

## 8 Sticeri y DU

Yn ogystal â phlât cofrestru'r ôl gerbyd, efallai y bydd rhai gwledydd dramor hefyd yn mynnu bod sticer y DU yn cael ei arddangos ar yr ôl gerbyd. I osgoi unrhyw risg o gamau gorfodi dramor, argymhellir eich bod yn arddangos sticer y DU.

Ni ddylid arddangos y sticer ar blât cofrestru'r ôl gerbyd. Dylai hwn fod yn sticer neu arwydd ar wahân wrth ymyl plât yr ôl gerbyd.

## 9 Beth i'w wneud os yw plât cofrestru'r ôl gerbyd yn cael ei ddwyn

Os yw eich plât yn cael ei ddwyn, dylech ddweud wrth yr heddlu fel y gallent gynnal ymchwiliad.

## 10 Os nad ydych bellach yn defnyddio'r ôl gerbyd ar gyfer teithiau rhyngwladol

Os nad ydych bellach yn defnyddio'ch ôl gerbyd ar gyfer teithio rhyngwladol, dylech ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein i ddweud wrth DVLA. Mae hyn oherwydd nid yw'r cynllun yn berthnasol i ôl gerbydau a ddefnyddir yn y DU yn unig. Dylech hefyd tynnu plât cofrestru'r ôl gerbyd oddi ar yr ôl gerbyd ar ôl i chi hysbysu DVLA.

## 11 Beth i'w wneud os ydych yn gwerthu, yn cael gwared ar neu'n trosglwyddo eich ôl gerbyd

Os nad ydych chi bellach yn geidwad ôl gerbyd cofrestredig, mae'n rhaid i chi ddweud wrth DVLA trwy'r gwasanaeth ar-lein. Dylech hefyd dynnu plât cofrestru'r ôl gerbyd oddi ar y cerbyd, ond rhaid i chi ddweud wrth unrhyw geidwad newydd beth yw'r rhif cofrestru. Mae hyn rhag ofn eu bod yn dymuno cofrestru fel ceidwad yr ôl gerbyd fel y gallent ei ddefnyddio'n rhyngwladol yn y dyfodol.

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau.**

**gov.uk/dvla**

## Gwasanaethau Cerbydau

**Rhifau cofrestru a phlatiau rhif ôl gerbyd**

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

**gov.uk/dvla**